

CFfG/ 2021/ Cyfarfod â Phleidiau Gwleidyddol

## Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd trwy MS Teams am 9.30am ddydd Llun 1 Mawrth 2021.

### Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford DBE	Dirprwy Gadeirydd
Mr Huw Vaughan Thomas CBE	Comisiynydd
Mr Sam Hartley	Comisiynydd
Mrs Shereen Williams MBE OStJ	Ysgrifennydd y Comisiwn
Mr Tom Jenkins	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Mr Rhydian Fitter	Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Mr Roger Pratt	Conservative Party
Mr Thomas James	
Mr Geraint Day	Plaid Cymru
Mr Marc Phillips	
Mr David Costa	Y Blaid Lafur
Mr Tom Adams	
Mr Fraser Welsh	

## 1. Croeso a Chyflwyniadau

- 1.1. Agorodd y Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod.
- 1.2. Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd fod dau Gomisiynydd, sef Huw Vaughan Thomas a Sam Hartley, yn bresennol, ynghyd ag aelodau o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn a chynrychiolwyr o Bleidiau Gwleidyddol.

## 2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

- 2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. Cefndir a Diben

- 3.1. Rhoddodd y Dirprwy Gadeirydd gefndir i'r arolwg a beth fyddai'n cael ei drafod yn y cyfarfod.

## 4. Nifer yr Etholaethau a'r Cwota Etholiadol

- 4.1. Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd fod yr ystadegau ar gyfer nifer yr etholwyr yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 5 Ionawr 2021.

- 4.2.** Cwota etholiadol y Deyrnas Unedig yw 73, 393, gyda 32 etholaeth yng Nghymru. Heblaw am Ynys Môn, mae'n rhaid i bob etholaeth a gynigir gan y Comisiwn yn rhan o Arolwg 2023 fod rhwng 69, 724 a 77, 062.

## **5. Amserlen**

- 5.1.** Amlinellodd y Dirprwy Gadeirydd yr amserlen a ragwelir ar gyfer yr arolwg a phryd mae'r Comisiwn yn disgwyl cyrraedd gwahanol gerrig filltir yr arolwg.
- Lansio'r Arolwg – mis Ionawr 2021.
  - Cyhoeddi'r Canllaw i'r Arolwg - mis Mawrth 2021.
  - Cyhoeddi Cynigion Cychwynnol – mis Medi 2021.
  - Cyfnod Ymgynghori ar y Cynigion Cychwynnol – mis Medi 2021 tan fis Tachwedd 2021.
  - Cyfnod Ymgynghori Eilaidd gan gynnwys gwrandawiadau cyhoeddus – mis Ionawr 2022 tan fis Chwefror 2022.
  - Cyhoeddi Cynigion Diwygiedig – mis Medi 2022.
  - Cyfnod Ymgynghori ar y Cynigion Diwygiedig – mis Medi 2022 tan fis Hydref 2022.
  - Argymhellion Terfynol – mis Mehefin 2023.
- 5.2.** Bydd y Comisiwn yn cyflwyno ei Argymhellion Terfynol ym mis Mehefin 2023.

## **6. Datblygu Cynigion**

- 6.1.** Bydd y Comisiwn yn ystyried sawl ffactor o Reol 5 yn Atodlen 2, wrth sefydlu map newydd o etholaethau ar gyfer Arolwg 2023.
- 6.2.** Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau ac yn ceisio creu etholaethau o wardiau etholiadol cyfan pan fydd hynny'n bosibl.

## **7. Enwau a Dynodiadau Etholaethau**

- 7.1.** Mae'n ofynnol i'r Comisiwn nodi enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig.
- 7.2.** Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enwau amgen yn Gymraeg ac yn Saesneg i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd. Bydd eithriadau ar gyfer etholaethau lle mae'r enw yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 7.3.** Bydd y Comisiwn yn defnyddio enwau pwynt cwmpawd pan nad oes enw mwy addas ar gael.

## **8. Ymgynghoriadau**

- 8.1.** Mae'r Ddeddf yn amlinellu tri Chyfnod Ymgynghori ar gyfer yr Arolwg.
- 8.2.** Mae'r porth ymgynghori ar-lein ar gyfer Arolwg 2023 wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn barod mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Cynigion Cychwynnol a'r cyfnod ymgynghori dilynol.

- 8.3. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod y cyfnodau ymgynghori ar y wefan a'r porth ymgynghori ar-lein.
- 8.4. Mae'r Comisiwn yn bwriadu cynhyrchu nifer fach o gopiâu caled o'r adroddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer yr holl rai hynny ar y rhestrau dosbarthu yr ystyrir bod angen iddynt gael copi caled. Bydd partïon eraill â buddiant yn cael llythyrau sy'n eu cyfeirio at wefan y Comisiwn, y porth ymgynghori ar-lein a'r lleoliadau adneuo.
- 8.5. Bydd Aelodau Seneddol a Phleidiau Gwleidyddol yn cael y cynnig 24 awr cyn iddo gael ei gyhoeddi, dan waharddiad. Bydd y Comisiwn yn cysylltu'n agosach at yr adeg gyhoeddi i gadarnhau'r trefniadau danfon a chasglu.

## 9. Gwrandawiadau Cyhoeddus

- 9.1. Esboniodd y Dirprwy Gadeirydd y bydd ymarfer recriwtio'n cael ei gynnal i benodi Comisiynwyr Cynorthwyol i gynnal y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 9.2. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar deithio a chynulliadau mawr, ac mae'r pedwar Comisiwn Ffiniau wrthi ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau ar gyfer cynnwys elfennau rhithwir yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Cyhoeddir canllaw ar wrandawiadau cyhoeddus maes o law.
- 9.3. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, bydd y Comisiwn yn cynnal yr uchafswm nifer o wrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru, sef pump. Mae diwygiad i'r Ddeddf yn golygu y bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod yr Ail Gyfnod Ymgynghori. Penderfynir ar leoliad y gwrandawiadau cyhoeddus gan ystyried y cynrychiolaethau a dderbynnir yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol.
- 9.4. Mae'r Comisiwn yn bwriadu caniatáu i Bleidiau Gwleidyddol wneud cynrychiolaethau estynedig yn y gwrandawiadau cyhoeddus cyntaf ac olaf a gynhelir yng Nghymru.

## 10. Cwestiynau a Dderbyniwyd Cyn y Cyfarfod ac Na Roddwyd Sylw Iddynt yn y Cyflwyniad

- 10.1. Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Lafur a yw'r amserlen yn gwrthdaro ag unrhyw etholiadau a drefnwyd neu dymor Cynadleddau ac, os felly, a fydd y terfynau amser penodol yn cael eu gosod gyda hyn mewn golwg. Cadarnhaodd y Comisiwn nad oes unrhyw wrthdaro ag etholiadau a drefnwyd, ac na fydd Ymgynghoriadau'n dod i ben yn ystod y tymor cynadleddau.
11. Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Lafur gan fod etholaethau Seneddol a'r Senedd wedi cael eu gwahanu ers 2016, ac y bydd y gwahaniaeth mewn niferoedd yn y dyfodol yn golygu y bydd rhaid iddynt fod yn wahanol, a fydd y Comisiwn yn rhoi unrhyw ystyriaeth i fanteision alinio rhai ffiniau lle y bo'n bosibl. Esboniodd y Comisiwn fod y Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol fel wardiau etholiadol, cymunedau ac awdurdodau lleol. Esboniodd y Comisiwn ymhellach nad yw etholaethau'r Senedd yn ffactor y caiff ei ystyried wrth ddatblygu cynigion.

- 11.1.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Lafur a oes gan y Comisiwn safbwynt penodol ar 'wardiau amddifad', lle mae ward unigol o awdurdod lleol arall yn rhan o etholaeth sydd fel arall wedi'i ffurfio o wardiau o awdurdod lleol gwahanol. Esboniodd y Comisiwn nad oes safbwynt ar wardiau amddifad. Bydd y Comisiwn yn ceisio osgoi hyn, ond fe allai fod yn angenrheidiol i greu etholaethau sy'n cydymffurfio â'r rheolau eraill a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.
- 11.2.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Lafur, o ran y gwrandawiadau cyhoeddus, a fydd y Comisiwn yn gweithio gyda'r Comisiynau eraill i sicrhau bod y rhain yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n osgoi teithio'n bell ar draws y wlad mewn cyfnod byr. Esboniodd y Comisiwn ei fod wedi gweithio gyda'r Comisiwn Ffiniau i Loegr i geisio sicrhau na fydd ei wrandawiadau cyhoeddus yn digwydd ar yr un pryd. Nid yw'r naill Comisiwn na'r llall wedi gosod dyddiadau a lleoliadau penodol ar gyfer ei wrandawiadau cyhoeddus ar hyn o bryd.
- 11.3.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Geidwadol sut a phryd y bydd y cynrychiolaethau i'r Cyfnod Ymgynghori Eilaidd a'r trawsgrifiad o'r gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi. Dywedodd y Comisiwn y bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y Cyfnod Ymgynghori Eilaidd. Fe'u cyhoeddir ar wefan y Comisiwn.
- 11.4.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Geidwadol sut y bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei gynigion cychwynnol a diwygiedig ar ffurf electronig ac a fydd yn ymgynghori â phleidiau gwleidyddol ynglŷn â fformat y data sydd i'w ddarparu. Cadarnhaodd y Comisiwn y bydd yr holl adroddiadau a gwybodaeth ategol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a'r porth ymgynghori ar-lein. Bydd yr adroddiad mewn fformat PDF a bydd y data yn Excel.

## 12. Unrhyw Gwestiynau Eraill

- 12.1.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Geidwadol a fydd y cynrychiolaethau o'r Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol a gyhoeddir ar y porth ymgynghori ar-lein a'r wefan yn cael eu cyhoeddi'n awtomatig neu a fyddant yn cael eu cyhoeddi ar ôl y Cyfnod Ymgynghori Eilaidd. Esboniodd y Comisiwn na fydd y cynrychiolaethau'n cael eu cyhoeddi'n awtomatig gan y bydd angen iddynt gael eu cyfieithu a'u golygu. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a gafodd yn ystod y Cyfnod Ymgynghori Cychwynnol pan fydd y broses wedi'i chwblhau. Bydd cyhoeddi'r cynrychiolaethau hyn yn sbarduno dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Eilaidd.
- 12.2.** Gofynnodd y cynrychiolydd o'r Blaid Geidwadol a fydd yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos ym mis Medi pan fydd y senedd yn eistedd. Cadarnhaodd y Comisiwn y bwriedir cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Cychwynnol ym mis Medi pan fydd y senedd yn eistedd. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Loegr wedi cysylltu â'r Llefarydd i ofyn am flaenoriaeth ar gyfer cyhoeddi. Os bydd y senedd yn ôl yn gorfforol ym mis Medi, bydd yr Adroddiad Cynigion Cychwynnol yn cael ei ddosbarthu mewn modd tebyg i'r tro diwethaf, ond os na, cynhelir trafodaethau ynglŷn â'r ffordd orau o'i ddosbarthu.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30am.

